

Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog Harbour Consultative Committee

11 Mawrth 2009

Adroddiad yr Uned Forwrol

1 – Ffioedd a Thaliadau

- 1.1* Mae'r ffioedd a'r taliadau sy'n ymwneud â'r flwyddyn ariannol nesaf, 2009/10, wedi eu hanfon ymlaen at y Swyddogion Statudol ac Arweinydd Portffolio'r Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes i'w cymeradwyo. Disgwylir y bydd yr Arweinydd Portffolio wedi cadarnhau'r ffioedd erbyn diwedd Chwefror / dechrau Mawrth. Er mwyn sicrhau bod ein cleientiaid yn ymwybodol o'r newidiadau sydd ar y gorwel, anfonodd yr Uned Forwrol gopi o'r ffioedd a'r taliadau drafft i'r holl gleientiaid a'r dyddiad cau er mwyn dychwelyd y ffurflenni cais am Angorfeydd oedd 27 Chwefror 2009.
- 1.2* Atodir copi o'r ffioedd a'r taliadau sy'n ymwneud â Harbwr Porthmadog a thynnir sylw aelodau at y ffaith yr argymhellir y dylai'r taliadau i'r rhai sy'n byw'n barhaol yng Ngwynedd gael eu cynyddu 3%, tra bydd y taliadau i'r rhai nad ydynt yn byw yng Ngwynedd yn cynyddu 4%. Bydd y gostyngiad mewn TAW o 17.5% i 15% wedi sicrhau bod y gost net i'r client wedi'i gostwng.
- 1.3* Rhagwelir y bydd graddfa chwyddiant ar gyfer harbyrau Gwynedd yn 2008/09 yn 2.67%. Mae hyn yn cyfateb i gynydd angenrheidiol o £7,540 yng nghyfanswm targed incwm yr harbyrau ar gyfer 2009/10. Bydd aelodau'n ymwybodol bod y targed incwm ym Mhorthmadog wedi bod yn cyrraedd yr incwm angenrheidiol am nifer o flynyddoedd. Fodd bynnag, er mwyn bod yn ddarbodus dan y fath amgylchiadau, bydd angen cymryd mesurau pellach i sicrhau bod cyfanswm y gwariant a'r targedau incwm yn parhau i gyflawni eu targedau heb gyfaddawdu ar y safonau.
- 1.4* Nid yw'r ffioedd a'r taliadau sy'n ymwneud â lansio a chofrestru Cychod Pŵer a Badau Dŵr Personol wedi'u cynyddu ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Atodir copi o'r taliadau ar gyfer Lansio a Chofrestru Cychod Pŵer.
- 1.5* Cyfanswm targed incwm yr Uned Forwrol ar gyfer 2009/10 yw £51,020 ac mae hyn yn cynyddu cyfanswm targed incwm yr Uned Forwrol i £2,121,900.

2 - Cyllidebau

- 2.1* Atodir gwybodaeth ynghylch sefyllfa ariannol harbwr Porthmadog hyd 31 Ionawr 2009. Tynnir sylw aelodau at y ffaith y bydd y targed incwm sy'n ymwneud â harbwr Porthmadog ar gyfer 2008/09 yn £78,260, ac y bydd cyfanswm yr incwm a gynhyrchwyd hyd diwedd Ionawr 2009 wedi cyrraedd £75,890. Ni ragwelir y bydd cyfanswm arwyddocaol o incwm yn gallu cael ei gynhyrchu yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd y targed incwm fymryn uwch na'r targed.

- 2.2 Fel y gwêl aelodau, mae'r gwariant hyd yma wedi mynd dros y gyllideb ar nifer o benawdau ac mae hyn yn achosi pryder gan y rhagwelir y bydd gwariant ychwanegol yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth.
- 2.3 Bydd aelodau'n cofio y sefydlwyd pennawd cyllideb NT 53 12 01 (£12,050) er mwyn ymgymryd â mân welliannau yn yr harbwr megis y cyfleuster disel a gwblhawyd yn ddiweddar, amnewid yr holl gadwyni daear a'r codwyr angorfeydd, yr estyniad i'r llythrafa, ac yn ddiweddar, yr estyniad i ardal storio'r harbwr.
- 2.4 O ystyried yr hinsawdd economaidd ar hyn o bryd, bydd 2009/10 yn flwyddyn heriol i'r Uned Forwrol ac yn enwedig i harbyrau Gwynedd. Pwysleisir y bydd angen goresgyn unrhyw orwariant ac unrhyw ddiffyg incwm, yn enwedig o ystyried yr hinsawdd ariannol sy'n wynebu'r Awdurdod ar hyn o bryd.

3. Mordwyo - angorfeydd

- 3.1 Mae'r rhan fwyaf o'r Cynorthwyon Mordwyo sy'n arwain i harbwr Porthmadog wedi aros yn eu lle yn ystod dechrau 2009. Cafodd Cynhorthwy Mordwyo Rhif 2 a Chynhorthwy Starbord Rhif 9 eu hailosod yn eu lle ar 5 Chwefror. Fe ymddengys fod newidiadau arwyddocaol yn ymddangos yn y sianel gyferbyn â Chwt Powdwr ac mae'r Uned Forwrol yn cynghori morwyr i gymryd pwyll wrth fordwyo yn yr ardal hon. Pe byddai'r newidiadau yn parhau, mae'n hynod debygol y bydd y sianel yn gwyro o'i lleoliad presennol ac y bydd yn llinell uniongyrchol o'r harbwr mewnol tuag at ardal y Bar.
- 3.2 Mae Cynhorthwy y Sianel Fordwyo wedi'i gynnal a'i gadw a bydd yn cael ei amnewid yn y gwanwyn. Bydd y marciau tymhorol dros dro yn cael eu tynnu i'r lan cyn y Pasg a bydd y prif gynorthwyon mordwyo ar gyfer yr haf yn cael eu hamnewid. Ni symudodd yr Uned Forwrol unrhyw un o'r lanteri mordwyo sydd wedi cael eu gadael yn eu lle trwy gydol misoedd y gaeaf.
- 3.3 Ar hyn o bryd, mae holl angorfeydd yr harbwr yn cael eu harchwilio a'u cynnal a'u cadw er mwyn sicrhau y gall y cychod fod yn ddiogel yn yr harbwr yn ystod y tymor hwylio sydd ar y gorwel. Rhoddodd Cyngor Gwynedd wahoddiad i gontractwyr cymwys i gyflwyno amcan bris am y gwaith a'r amcan bris rhataf a dderbyniwyd oedd **£2,750**. Bydd gwaith pellach i adlinio angorfeydd 110c hyd 119c yn costio **£650** ychwanegol.
- 3.4 Bydd adroddiad manwl ar gyflwr yr angorfeydd ac ar y gwaith a wnaed ar bob angorfa yn cael ei ddisbarthu gan y Swyddog Morwrol - Harbyrau a'r Harbwr Feistr yn ystod y cyfarfod.
- 3.5 Roedd cost y gadwyn a'r gefyn angori sydd i'w defnyddio i gynnal a chadw angorfeydd a Chynorthwyon Mordwyo yn Harbwr Porthmadog yn ystod y gwanwyn 2009 yn **£4,000**. Mae hyn yn sylweddol uwch na'r gost o **£2,800** a dalwyd am offer newydd yn 2008.
- 3.6 Mae'r holl angorfeydd sydd wedi'u lleoli yn Borth y Gest wedi'u harchwilio gan yr Harbwr Feistr ac fe nodir na fydd angen symud unrhyw angorfeydd y gaeaf hwn.

4 - Staff

- 4.1 Gan fod nifer o swyddogion o fewn yr Uned Forwrol ar secondiad i rannau eraill o'r gwasanaeth ar hyn o bryd, mae'n bosibl y bydd y sefyllfa ddiweddaraf ynghylch swydd yr Harbwr Feistr ym Mhorthmadog yn parhau dros fisoedd yr haf. Bydd Aelodau'n derbyn manylion pellach ac yn cael eglurhad o'r sefyllfa yn ystod y cyfarfod.

5 - Is-ddeddfau Harbwr

- 5.1 Er bod yr Is-ddeddfau Harbwr drafft wedi'u harchwilio a'u cymeradwyo gan Bwyllgor yr Harbwr, nid yw'r is-ddeddfau wedi'u cadarnhau a'u mabwysiadu.
- 5.2 Bydd aelodau'n ymwybodol fod Cyngor Gwynedd wedi bod yn dilyn y mater hwn yn gryf ac mae Aelodau wedi mynegi rhwystredigaeth a siom gan nad yw'r Is-ddeddfau wedi'u cadarnhau.
- 5.3 Fel rhan o'r broses ymgynghori angenrheidiol, anfonwyd yr Is-ddeddfau drafft ymlaen at Gangen Gwaith ac Amgylchedd yr Adran Harbyrau yn yr Adran Drafndiaeth yn Llundain. Roedd y Gangen Gwaith ac Amgylchedd wedi ymgynghori ymhellach â Thŷ'r Drindod a'r Gymdeithas Hwyllo Frenhinol.
- 5.4 Mae'r Gangen Gwaith ac Amgylchedd wedi nodi'r sylwadau a dderbyniwyd gan y rhai yr ymgynghorwyd â hwy ac atodir copi o'r sylwadau. Bydd gofyn i'r Aelodau daro golwg ar y sylwadau a wnaed gan Dŷ'r Drindod a'r Gymdeithas Hwyllo Frenhinol a chymharu'r addasiadau a awgrymir / angenrheidiol i'r Is-ddeddfau drafft sydd wedi'u cyflwyno gerbron y Pwyllgor o'r blaen.

Bydd yr Is-ddeddfau drafft wedi'u haddasu yn cael eu cylchredeg i Aelodau cyn gynted â phosibl ar ôl y cyfarfod.

6.- Rheoliadau Llongau Drafft

- 6.1 Ar hyn o bryd, mae'r Adran Drafndiaeth yn ymgynghori ar reoliadau i eithrio morwyr amatur mewn categorïau penodol o longau o'r drosedd o fod dros y lefel o alcohol a ganiateir. Dylid nodi nad yw'r Ddeddf yn caniatáu i'r Rheoliadau wneud eithriadau o'r drosedd o: "*being impaired in the ability to navigate because of drink or drugs*", dan adran 80(2) Deddf Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth.

Y dyddiad cau i ymateb yw 6 Mai 2009 ac ar hyn o bryd, mae ymgynghori'n digwydd gyda Phwyllgorau Harbwr Aberdyfi, Abermaw, Porthmadog a Phwllheli trwy gyfarfodydd y Pwyllgorau Harbwr. Bydd sylwadau'r Pwyllgor, os y gofynnir amdanynt gan y Pwyllgor, yn cael eu cyflwyno i'r Adran Drafndiaeth.

- 6.2 Wrth i'r Ddeddf gael ei phasio trwy'r Senedd, nododd y Llywodraeth ei fod yn tueddu eithrio cychod rhwyfo a phadlo a dingis hwyllo o'r cyfyngiadau anadl a'r profion cysylltiedig. I'r gwrthwyneb, dywedodd y Llywodraeth ei fod yn tueddu i gynnwys y rhai hynny sy'n gyrru llestrau hamdden o faint sylweddol, cychod modur pwerus a badau dŵr personol (a adwaenir yn gyffredin fel *jetskis*TM) yn y cyfyngiadau a'r profion cysylltiedig.

Roedd peth cefnogaeth yn yr ymgynghoriad i ffigyrau a oedd yn seiliedig ar y paramedrau a awgrymwyd ynghylch eithriad yn seiliedig ar gyflymdra o ddim mwy na 17 not a hyd o ddim mwy na 22 metr. Fodd bynnag, sylwyd y byddai hyn yn eithrio nifer helaeth o fadau hamdden – nifer ohonynt a fyddai'n weddol fawr a chyflym. Ar ôl ystyried barn gan asiantaethau gorfodi, morwyr hamdden a'r cyhoedd, penderfynodd y Gweinidogion ar eithriad mwy cyfyngedig i bobl ar gychod a oedd yn fyrrach na 7 metr ac nad oeddynt yn gallu teithio'n gyflymach na 7 not.

Mae'r paramedrau hyn yn unol â'r rhai sy'n ymwneud â golau yn ***Rheol 23*** yr ***International Regulations for Preventing Collisions at Sea***, fel bod ganddynt y fantais o ddarparu cyfres o ffigyrau cofiadwy a dealladwy y bydd y rhan fwyaf o forwyr hamdden ac asiantaethau gorfodi yn eu hadnabod.

Wrth sefydlu'r paramedrau hyn, mae'r Llywodraeth yn ymwybodol y bydd achosion ar yr ymylon ble y bydd y rhai sy'n syrthio y tu allan i'r eithriad o'r mymryn lleiaf, yn teimlo y dylent gael eu cynnwys yn yr eithriad. Fodd bynnag, byddai hynny'n digwydd er gwaethaf y paramedrau penodol. Amcan y Llywodraeth yw sicrhau bod y morwyr amatur sydd ar longau sy'n peri mwy o risg oherwydd maint a'r cyflymdra posib, **yn cael eu cynnwys** yn y cyfyngiadau alcohol.

- 6.3 Efallai y cyfeirir at y rheoliadau arfaethedig fel *Shipping (Alcohol) (Exemption) Regulations 200X* a byddant yn dod i rym ar ****/**/******.

Ni fydd Adran 80(3) Deddf Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth 2003 yn berthnasol mewn amgylchiadau pan fo'r Llong y cyfeirir ati yn Adran 80 (1) y Ddeddf honno yn fyrrach na saith metr o hyd ac nad yw'n gallu teithio ar gyflymdra sy'n fwy na saith not.

- 6.4 Mae Adran 80 Deddf Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth 2003 fel a ganlyn:

Section 80 Non-professionals

(1) This section applies to a person who—

(a) is on board a ship which is under way,

(b) is exercising, or purporting or attempting to exercise, a function in connection with the navigation of the ship, and

(c) is not a person to whom section 78 or 79 applies.

(2) A person to whom this section applies commits an offence if his ability to exercise the function mentioned in subsection (1)(b) is impaired because of drink or drugs.

(3) A person to whom this section applies commits an offence if the proportion of alcohol in his breath, blood or urine exceeds the prescribed limit.

(4) The Secretary of State may make regulations providing for subsection (3) not to apply in specified circumstances.

(5) Regulations under subsection (4) may make provision by reference, in particular—

(a) to the power of a motor;

(b) to the size of a ship;

(c) to location.

7.- Canlyniad Barn Cwsmer

Atodir dadansoddiad manwl o'r holiaduron a ddosbarthwyd i holl ddalwyr angorfeydd ym Mhorthmadog yn ystod 2008, er gwybodaeth i Aelodau. Mae'n siomedig gweld mai llai na 50% o'r holiaduron a ddychwelwyd.

Bydd yr Uned Forwrol yn ystyried barn y cleientiaid a bydd yn ymdrechu i gymryd camau i wella'r manau hynny sydd angen sylw.

8.- Pibell Arllwys Borth y Gest

8.1 Mae cyflwr y bibell arllwys sy'n arllwys i sianel fordwyo Borth y Gest yn dirywio ac mae wedi bod yn destun pryder am rai blynyddoedd. Ar 26 Medi 2008, cysylltodd yr Uned Forwrol â Dŵr Cymru unwaith yn rhagor er mwyn gofyn i sylw brys gael ei roi i'r mater. Rydym yn falch o fedru hysbysu Aelodau bod gwaith yn mynd rhagddo i gael gwared ar y rhwystr sydd wedi bod yn peri pryder a'r gobaith yw y bydd y gwaith wedi'i orffen cyn y Pasg.

Deallir gan Dŵr Cymru mai Cyngor Gwynedd a Dŵr Cymru sydd berchen y bibell arllwys a'i bod yn cael ei defnyddio gan y ddau sefydliad yn ogystal.